CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
5 Gorffennaf 2017, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, A Evans, A Mummery, R Davies, M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng N Jones, R Edwards, R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng R Davies (eitem 6.2 Horizon)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd 7 a 21 Mehefin 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir.
4.2	**Gor-yrru Penmynydd** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan Gan Bwyll.
4.3	**Maes chwarae** - Bydd Cyng N Jones yn trefnu cael cadwyn a chlo i osod ar y giat.
4.4	**Mast Penmynydd** - Darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir: Wedi ymchwilio'r rheoliadau perthnasol ynglyn a datblygiadau fel hyn, gallaf gadarnhau ei fod yn ddatblygiad a ganiateir dan Dosbarth A(a) o Rhan 24 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif. 2) 2014. Nid yw caniatad cynllunio felly ei angen, ac fydd y ffeil gorfodaeth yn awr yn cael ei gau.
4.5	**Canolfan Penmynydd** - Yr oedd y cyfarfod cyhoeddus ar 21 o Fehefin yn llwyddiannus gyda llawer o ddidordeb i cadw yr Ganolfan ar agor. Yn dilyn y cyfarfod bydd pwyllgor yn cael eu greu i symud pethau ymlaen. Ar hyn o bryd, nid yw y Clerc wedi derbyn copi o'r prydles gan y Cyngor Sir.
4.6	**Mynwent yr Eglwys** - Erbyn hyn mae pobl lleol wedi gweithio ar y fynwent, torri gwair, twtio ac ymlaen. Gofynwyd i'r Clerc cofnodi diolchiadau iddynt.
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	Mast Penmynydd - gweler 4.4
	Pwyllgor Safonnau
5.2	Mae'r Pwyllgor yn cynnig hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad. Ymateb y Cyngor Cymuned i'r holiadur: Faint o Gynghorwyr bydd yn mynychu'r hyfforddiant? - 1. Amser? 10yb neu 6yh am un awr yng Nghymraeg a bydd angen 1 mis o rybudd
	Adran Addysg
5.3	Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022. Gofynwyd i'r Clerc ebostio yr wybodaeth i'r aelodau a rhoi ar yr agenda nesaf.
	Llofnod **Cadeirydd** **06.09.17**

	Adran Polisi
5.4	Pencampwyr iaith Gymraeg. Mae Fforwm Cyswllt Ynys Môn wedi cytuno i ofyn i pob cyngor tref a chymuned enwebu pencampwyr iaith. Rhestrir isod y briff a roddwyd ar gyfer y rôl: - Cymhathu'r di-Gymraeg i'r pwyllgorau - Mynegi barn ar geisiadau cynllunio o safbwynt y Gymraeg - Cymreigeiddio'ch ardal, ee arwyddion siopau, enwau datblygiadau newydd. Cynigodd y Cadeirydd Cyng D I Roberts rhoi ei enw ymlaen.
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Unllais Cymru - Cyfarfod Blynyddol 30.09.17 - gwybodaeth yn unig.
6.2	Horizon - Ymgynhoriad (Gadawodd Cyng R Davies y cyfarfod). Cytunwyd i cefnogi pryderon y Cyngor Sir.
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Cytunwyd i dalu Playsafety £79.80
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mae y Cyngor yn pryderu am gor-yrru ym Mhenmynydd, yn enwedig ers mae y gwaith wedi dechrau ar Lôn Glanhwfa (mae traffig yn defnyddio lôn Penmynydd i escoi y gwaith lôn). Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a Gan Bwyll i longyfarch nhw am fod yn bresennol ym Mhenmynydd a gobeithio bydd y presenoldeb yn cario ymlaen.
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
9.1	Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022.
	Llofnod **Cadeirydd** **06.09.17**